CYNGOR CYMUNED CWM CADNANT.

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd y Plwyf, Llandegfan, Nos Fercher, 13eg TACHWEDD 2024.

COFNOD:

2748 Yn bresennol roedd:

Y Cynghorwyr Mr Tom Cooke (Cadeirydd), Mrs Nia Foulkes, Mr Eurfryn Davies, Mr John Wyn Griffith, Mr John Griffiths, Mr Gareth Griffiths, Mr Michael Willis & Mr J Alun Foulkes (Clerc).
HEFYD yn bresennol: Y Cynghorydd Sir Mr Carwyn Jones.

2749 Derbyn unrhyw ymddiheuriadau:

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr:
Miss Sian Griffiths, Mr Alun Roberts a Mr William Emrys Roberts.
Hefyd: Y Cynghorydd Sir Mr Gary Pritchard.

2750 Croeso gan y Cadeirydd.

Rhoddwyd croeso cynnes i'r holl Gynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd a oedd yn bresennol i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

2751 Datgan unrhyw Ddiddordeb Personol/Rhagfarnol

Ni ddatganwyd unrhyw diddordeb personol a/neu sy'n rhagfarnu cyn ac yn ystod y cyfarfod.

2752 Derbyn a Chymeradwyo Cofnodion Cyfarfodydd Blaenorol.

Cyfarfod o'r Cyngor Llawn – 9.10.2024 - cynigwyd (JG) ac eiliwyd (ED) i dderbyn a llofnodi bod cofnodion y cyfarfod yn gywir.

2753 Adroddiad Arolygu Meysydd Chwarae a Thendr Torri Gwair.

Trafodwyd a chytunwyd ar y materion canlynol:

2753.1 **Cwblhau Ymweliad Meysydd Chwarae 2024** – cadarnhaodd y Clerc ei fod yn y broses o dderbyn dyfynbris gan GL Jones o Fethesda ar gyfer yr Offer Chwarae Amlddefnydd yn Llansadwrn sydd mewn cyflwr gwael ac, wedi ei dderbyn, bydd yn cael ei gynnwys yn y gwariant praesept ar gyfer 2025/2026.

2753.2 Roedd y Clerc wedi derbyn dyfynbris o £450.00 ar gyfer atgyweirio wal derfyn Llansadwrn ac yn dilyn trafodaeth gyda'r Cadeirydd, derbyniwyd hwn ac mae'r gwaith bellach wedi'i gwblhau. **Cymeradwyodd y Cyngor y camau a gymerwyd.**

2753.3 Cadarnhaodd y Clerc y bydd tendr pris torri gwair a chytundeb y ddau faes chwarae yn cael eu trafod ym mis Ionawr 2025.

2754 Cyflenwr Bagiau Baw Cŵn.

Adroddodd y Clerc ar y materion canlynol:

2754.1 Cadarnhad gan y Clerc y bydd y polyn ar gyfer y peiriant dosbarthu ychwanegol a brynwyd ac sydd i'w leoli yn y gilfan gyferbyn â Fferm Rysgol yn cael ei osod ar ddechrau 2025.

2755 Materion Priffyrdd

Trafodwyd y materion canlynol:

2755.1 **Lôn Allt Bryn Mel** – roedd yn ansicr os yw Adran Briffyrdd y Cyngor Sir wedi trefnu i dorri'r canghennau a'r cloddiau sydd wedi gordyfu ac sy'n rhwystro'r briffordd ac a oedd y tirfeddianwyr wedi cael cyfarwyddyd i dorri'n ôl ar y gordyfiant ar eu tir preifat eu hunain.

2755.2 **Lôn Pedair Groeslon** – cadarnhad fod gwaith i dorri'r canghennau a'r cloddiau sydd wedi gordyfu ac sy'n gwneud y ffordd yma yn hynod beryglus wedi ei wneud a'i gwblhau. Ni chafwyd adroddwyd am unrhyw ddatblygiadau pellach yn dilyn pryderon a godwyd ynghylch y difrod a wnaed i wal Hen Bont Cadnant.

2755.3 **Ymgynghoriad ar y Terfynau Cyflymder 20mya** – dywedodd y Clerc fod Adran Briffyrdd y Cyngor Sir wedi ymateb a chydnabod y cais i symud yr arwydd terfyn cyflymder 20mya ar waelod Allt Cichle yn nes at y pentref cyn cyrraedd Stad Bron Haul.

2756 Materion Llwybrau Troed.

2756.1 **Adolygiad Llwybrau 2024** – yn dilyn cwblhau adolygiad yr Archwiliad Llwybr Troed a'r ddogfen a ddarparwyd, y Cyng Mr John Griffiths a'r Clerc i drefnu cyfarfod i drafod y ddogfen a chynllunio pa gamau i'w cymryd.

2757 **Cynllun Bioamrywiaeth Cyngor Cymuned.**

Cymeradwyodd y Cynghorwyr y ddogfen ddiwygiedig (JG/NF) yn unfrydol gyda diolch i'r Cynghorydd Mr Michael Willis. Bydd angen cyfieithu'r ddogfen i'r Gymraeg a bydd y Clerc yn ymgymryd â'r gwaith hwn yn y Flwyddyn Newydd.

2758 **Lwfansau Aelodau.**

Yn unol â Chofnod 2704, dosbarthwyd y ffurflen optio allan berthnasol i'r Cynghorwyr ymlaen llaw a gofyn iddynt ei chwblhau neu fel arall i'w hysbysu o'u hopsiwn gorfodol i dderbyn eu lwfans o £156.00 yn unol â chymeradwyaeth yr IPRM.

2759 **Materion Neuadd y Plwyf.**

Gohiriwyd yr eitem tan Ionawr 2025 a bydd y Clerc yn dosbarthu copi o Gyfrifon 2023/24 i'r Cynghorwyr. Adroddwyd hefyd bod digwyddiad Caffi Trwsio diweddar wedi codi £50.00 at cronfa Neuadd y Plwyf.

2760 **Plac Coffa Teulu Oliver.**

Cadarnhad gan y Clerc gyda diolch gan bawb a fu'n ymwneud â'r digwyddiad fod y plac wedi'i ddadorchuddio gyda'r teulu ar bnawn Dydd Iau, 17eg Hydref 2024.

2761 **Sul y Cofio.**

Cadarnhad gan y Clerc gyda diolch i'r Cyng Mrs Nia Foulkes fod y Gwasanaeth Coffa Blynyddol yn Neuadd y Plwyf a thu allan wrth y Gofeb Rhyfel wedi ei gynnal ddydd Sul, 10fed Tachwedd 2024 a chasglwyd swm o £90.00. **Cytunodd y Cyngor Cymuned ar gyfraniad pellach o £60.00 dan bŵer a137 (EGD/JG).**

2762 **Coeden Nadolig a Goleuadau.**

Cafwyd adroddiad oddiwrth y Clerc ac fe chadarnhaodd fod trefniadau ar gyfer y Goeden a'r holl weithgareddau eraill mewn llaw i goleuo'r Goeden yn ffurfiol y tu allan i Neuadd y Plwyf ar nos Wener, 29 Tachwedd 2024 am 6:30pm.

.....

2763 Adroddiad y Cynghorydd Sir.

Cafwyd adroddiad byr gan y Cynghorydd Sir Mr Carwyn Jones i gadarnhau bod yr Adeilad Modiwlar Gofal Plant sydd i'w leoli ger Ysgol Gynradd yn Llangoed wedi'i gymeradwyo gan Adran Gynllunio'r Awdurdod Lleol.

2764 Biliau i'w Talu.

2764.1 **Cymeradwywyd y bil(iau) canlynol i'w talu (GG/JWG):**

i.	Cyflog y Clerc – Hydref 2024	£600.00
ii.	JRB Enterprise – Bagiau Cŵn Ychwanegol a Pholyn	£380.40
iii.	Inigo Jones & Co Ltd – Plac Teulu Oliver	£523.20
iv.	Menai Deli – Bwffe Plac Teulu Oliver	£105.00

2764.2 **Derbynneb(au):**

i.	Llog Banc	£42.15

2764.3 **Cysoni Cyfrif: 31.10.2024**

Cyfrif Cyfredol - £17,342.86 Cyfrif Wrth Gefn - £35,451.97

2765 Ceisiadau Cynllunio Newydd.

2765.1 Cais llawn i ddymchwel dau dŷ presennol a chodi dau dŷ newydd yn eu lle, newidiadau i'r tŷ cychod presennol, adeiladu mynedfa newydd i gerbydau, adeiladu rhodfa fewnol newydd a man troi, tirlunio a gwaith cysylltiedig yn: **Glan y Menai, Glyn Garth - FPL/2024/252 – yn dilyn astudiaeth o'r dogfennau a ddarparwyd gyda'r cais, derbyniwyd bod y cais newydd/diwygiedig yn fwy dderbyniol ac yn welliant ar y cais blaenorol a gyflwynwyd (HHP/2020/283) ac felly DIM SYLWADAU/ GWRTHWYNEBIADAU.**

2765.2 Cais Cynllunio Llawn i Godi Annedd Gwarchod Daear ynghyd â datblygiad cysylltiedig yn: **Maenordy Bryn Mel, Glyn Garth – FPL/2024/308 – yn dilyn astudiaeth o'r dogfennau a sylwadau llafar a roddwyd i'r Cynghorwyr gan yr ymgeisydd, cytunodd y Cynghorwyr, er bod yr egwyddor o godi tŷ o'r fath yn edrych yn dda, roedd yn rhaid eu harwain gan ei leoliad arfaethedig mewn AHNE a thu allan i ffiniau presennol y CDLl ar y Cyd ac felly ni allent gefnogi'r cais.**

.....

2766 **Materion Eraill yn Gysylltiedig â Chynllunio.**

Cais Cynllunio – Tir i'r Gogledd Ddwyrain o Gwel y Llan – FPL/2024/105 – Hysbyswyd y Cynghorwyr fod y Clerc wedi mynychu Pwyllgor Cynllunio Llawn y Cyngor Sir i gynrychioli'r Cyngor a'r trigolion ac i siarad yn gyhoeddus i wrthwynebu'r cais. Fodd bynnag, rhoddwyd caniatâd ffurfiol i'r cais.

2767 **Diffibriliwr Ysgol Gynradd.**

Cadarnhaodd y Clerc fod angen iddo gysylltu â Phrifathro'r Ysgol i drosglwyddo'n ffurfiol a chymryd cyfrifoldeb am y diffibriliwr Ysgolion ac i YCHWANEGU hwn i Asedau'r Cyngor Cymuned. Cytunwyd hefyd i drefnu cwrs ymwybyddiaeth diffibriliwr yn gynnar yn 2025.

2768 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 11 Rhagfyr 2024.**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorwyr am eu presenoldeb a daeth y cyfarfod i ben am 9:15pm.

CWM CADNANT COMMUNITY COUNCIL.
Minutes of the Council's Meeting held in the Parish Hall, Llandegfan on Wednesday, 13th NOVEMBER 2024.

MINUTE:

2748 Present were:

Councillors Mr Tom Cooke (Chair), Mrs Nia Foulkes, Mr Eurfryn Davies, Mr John Wyn Griffith, Mr John Griffiths, Mr Gareth Griffiths, Mr Michael Willis & Mr J Alun Foulkes (Clerk).

ALSO in attendance: County Councillor Mr Carwyn Jones.

2749 To receive any Apologies:

Apologies were received from Councillors:
Miss Sian Griffiths, Mr Alun Roberts &
Mr William Emrys Roberts.
Also: County Councillor Mr Gary Pritchard.

2750 Welcome from the Chairman.

All Councillor(s) and members of the public present were given a warm welcome to the meeting by the Chairman.

2751 To Declare any Personal/ Prejudicial Interest

No declaration of personal and/or prejudicial interest was declared prior to the meeting.

2752 To Accept & Approve Minutes of Previous Meetings.

Full Council Meeting – 9.10.2024 - proposed (JG) and seconded (ED) to accept and sign that the minutes of the meeting were correct.

.....

2753 **Play Area Inspection Report & Grass Cutting Tender.**
The following matters were discussed and agreed upon:

2753.1 Completion of the 2024 Play Area Inspection – the Clerk confirmed that he was in the process of receiving a quotation from GL Jones of Bethesda for the Multi-Use Play Equipment in Llansadwrn that is in poor condition and, when received, it will be included in the precept expenditure for 2025/2026.

2753.2 The Clerk had received a quotation of £450.00 for repairs to the boundary wall in Llansadwrn and following discussion with the Chair, this was accepted and the works have now been completed. Council approved the actions taken.

2753.3 The Clerk confirmed that the grass cutting price tender and contract of both play areas will be discussed in January 2025.

2754 **Dog Dispenser & Bags.**
The Clerk reported on the following matters:

2754.1 Confirmation from the Clerk that the pole for the additional dispenser purchased and to be located in the lay-by opposite Rysgol Farm will be installed at the start of 2025.

2755 **Highway Matters**
The following matters were discussed:

2755.1 **Lôn Allt Bryn Mel** – it was uncertain whether the County Council's Highways Department has arranged for the overgrown branches and hedges obstructing the highway to be cut and whether the landowners had been instructed to cut back the overgrowth on their own private land.

2755.2 **Lôn Pedair Groeslon** – confirmation that works to cut the overgrown branches and hedges making this road extremely dangerous had been carried out and completed. No further developments was reported following concerns raised to the damage done to the wall of the Old Cadnant Bridge.

2755.3 **Consultation on the 20mph Speed Limits** - the Clerk confirmed that the County Council's Highways Department had responded and acknowledged the **request that the 20mph speed limit sign on the bottom of Allt Cichle is relocated closer to the village before reaching the Bron Haul Estate.**

2756 Footpath Matters.

2756.1 **Footpath Review 2024** – following the completion of the Footpath Inspection review and document provided,Cllr Mr John Griffiths & the Clerk to arrange a meeting to discuss the document and plan what action to take.

2757 Community Council's Biodiversity Plan.

Councillors unanimously approved the revised document (JG/NF) with thanks to Cllr Mr Michael Willis. There will be a need to translate the document into Welsh and the Clerk will undertake this work in the New Year.

2758 Member Allowances.

As per Minute 2704, the Clerk provided Councillors with the relevant opt-out form prior and requested Cllrs to complete or otherwise to inform him of their mandatory option to receive their allowance of £156.00 in line with the IPRM approval.

2759 Parish Hall Matters.

The item was deferred until January 2025 and the Clerk will provide Councillors with a copy of the 2023/24 Accounts. It was also reported that a recent Caffi Trwsio event raised £50.00 for the Parish Hall.

2760 Oliver Family Memorial Plaque.

Confirmation from the Clerk with thanks, from all concerned, that the unveiling of the plaque with the family took place on Thursday, 17th October 2024.

.....

2761 **Remembrance Sunday.**

Confirmation from the Clerk with thanks to Cllr Mrs Nia Foulkes that the Annual Remembrance Service in the Parish Hall and outside at the War Memorial took place on Sunday, 10th November 2024 and a sum of £90.00 was collected. The Community Council agreed a further donation of £60.00 under power s137 (EGD/JG).

2762 **Xmas Tree & Lights.**

The Clerk provided a progress report and confirmed that arrangements for the Tree and all other activities was in hand. to formally light the Tree outside the Parish Hall on Friday evening, 29th November 2024 at 6:30pm.

2763 **County Councillor's Report.**

County Councillor Mr Carwyn Jones gave a brief report to confirm that the Child Care Modular Building to be located next the Primary School in Llangoed had been approved by the Local Authority's Planning Department.

2764 **Bills for Payment.**

2764.1 **The following bill(s) for payment were approved (GG/JWG):**

i.	*Clerk's Wages – October 2024*	***£600.00***
ii.	*JRB Enterprise – Extra Dog Bags & Pole*	***£380.40***
iii.	*Inigo Jones & Co Ltd – Oliver Family Plaque*	***£523.20***
iv.	*Menai Deli – Oliver Family Plaque Buffet*	***£105.00***

2764.2 ***Receipt(s):***

i.	*Bank Interest*	***£42.15***

2764.3 ***Account Reconciliation: 31.10.2024***

Current Account - £17,342.86 Reserve Account - £35,451.97

2765 **New Planning Applications.**

2765.1 *Full application to demolish two existing dwellings and erection of two new replacement dwellings, alterations to the existing boathouse, construction of a new vehicular access, construction of a new internal driveway and turning area, landscaping and associated works at:* ***Glan y Menai, Glyn Garth*** *–*

.....

FPL/2024/252 – following a study of the documents provided with the application, it was accepted that this new/revised application was more acceptable and an improvement on the previous application submitted (HHP/2020/283) and therefore had NO OBSERVATIONS/OBJECTIONS.

2765.2 *Full Planning Application to Erect an Earth Sheltered Dwelling together with associated development at:* ***Bryn Mel Manor, Glyn Garth – FPL/2024/308 – following a study of the documents and a verbal representation given to Councillors by the applicant, Councillors agreed that, although the principle of erecting such a dwelling looked good, they had to be guided by its proposed location in an AONB and outside the current boundaries of the JDLP and therefore could not support the application.***

2766 Other Planning Related Matters.

Planning Application - Land to the North East of Gwel y Llan – FPL/2024/105 – Councillors were informed that the Clerk had attended the County Council's Full Planning Committee to represent the Council and the residents and to publicly speak to oppose the application. However, the application was given formal approval.

2767 Primary School Defibrillator.

Clerk confirmed that he needs to contact the School's Headmaster to formally transfer and take responsibility of the Schools defibrillator and to ADD this to the Community Council's Assets. It was also agreed to arrange a defibrillator awareness course in early 2025.

2768 Date of Next Meeting: 11th December 2024.

The Chairman thanked the Councillors for their attendance and closed the meeting at 9:15pm.

Sign…….. Chairman…… Date.